Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Papur Gwybodaeth i Aelodau: Trosglwyddo i Ddigidol 2025

## Gorffennaf 2023

### Diben

Mae'r papur gwybodaeth yma yn rhoi manylion allweddol am y cynlluniau ar gyfer y trosglwyddo i ddigidol, ffynonellau cymorth a gweithgaredd sy'n mynd rhagddo i gefnogi sefydliadau gyda'r broses.

### Trosglwyddo i ddigidol

Erbyn diwedd 2025 bydd gwasanaeth ffôn y Deyrnas Unedig yn cwblhau'r symud o system analog i system ddigidol. Bryd hynny caiff galwadau llinellau tir eu gwneud yn defnyddio technoleg ddigidol, yn defnyddio Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) yn lle'r rhwydwaith traddodiadol switsh cyhoeddus (PTSN).

Gan ddod â darpariaeth llinellau analog ar raddfa helaeth i ben eleni, bydd BT yn ymddeol ei system PTSN yn llawn erbyn mis Rhagfyr 2025, felly bydd yn rhaid i ddarparwyr sy'n defnyddio rhwydwaith BT ddilyn yr un amserlen. Mae cwmnïau gyda'u rhwydweithiau eu hunain (e.e. Virgin Media) yn dilyn yr un amserlen. Mae'r broses eisoes wedi dechrau gyda llawer o gyfnewidfeydd telathrebu eisoes wedi dod yn hollol ddigidol.

Gan fod teleofal yn dibynnu i raddau helaeth ar linellau ffôn analog, bydd gan y newid hwn oblygiadau sylweddol i'r sector tai a gofal. Yn ôl adroddiad TEC Cymru, mae amcangyfrif o 77,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth teleofal a ddarperir gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac elusennau yng Nghymru. Bydd yn rhaid i gymdeithasau tai ddechrau prosiectau i ddiweddaru eu systemau er mwyn cefnogi'r rhai sy'n dibynnu ar deleofal.

### Ffynonellau cyllid

Mae amrywiaeth o grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer unigolion a sefydliadau y bydd angen iddynt wella eu cysylltiad band eang. Mae hyn yn cynnwys:

- Access Broadband Cymru, sy'n darparu grantiau rhwng £400 a £800 i unigolion, busnesau a chyrff trydydd sector;
- Cronfa Band Eang Lleol gyda £10 miliwn ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu prosiectau band eang yn lleol;
- Y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar draws y Deyrnas Unedig sy'n galluogi pobl i wneud cais am gysylltiad gwell gan BT lle na allant gael mynediad i fand eang da ac na chânt eu cysylltu gan gynllun arall o fewn 12 mis.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

Mae **Ofcom** yn gobeithio annog buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffibr band eang a sicrhau y caiff cwsmeriaid bregus eu diogelu rhag niwed. Maent wedi cyhoeddi dogfen yn esbonio pa newidiadau sy'n digwydd, rôl a chyfrifoldeb gwahanol sefydliadau, a'u disgwyliadau gan ddarparwyr telathrebu wrth iddynt wneud y newidiadau hyn. Maent hefyd wedi cyhoeddi dogfennau ar drin cwsmeriaid bregus yn deg.

Er fod y trosglwyddo i ddigidol yn cael ei arwain gan ddiwydiant gyda chefnogaeth  Ofcom a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae **Llywodraeth Cymru** yn helpu i hwyluso sgyrsiau rhwng y sefydliadau hyn a chyrff cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, yn ogystal â cheisio deall pa mor dda mae'r sector cyhoeddus wedi paratoi ar gyfer y newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Farrpoint i gynnal adolygiad ar baratoadau'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a chyff preifat. Mae nodau'r adolygiad yn cynnwys: gosod diffiniad addas o fod wedi paratoi yng nghyd-destun y newid, rhoi asesiad o'r risgiau i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, a nodi'n glir yr argymhellion i drin unrhyw fylchau wrth baratoi. Bydd CHC yn gofyn am fwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar yr adolygiad hwn a'r cyfleoedd i gymdeithasau tai cymryd rhan.

Mae'r **Gymdeithas Gwasanaethau Teleofal (TSA)**, corff cynrychioli gwasanaethau gofal a alluogir gan dechnoleg, hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth ar y goblygiadau ar gyfer y sector TEC. Mae mynediad i amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys canllawiau comisiynydd/prynwr, rhyngweithioldeb systemau TEC digidol ac ymchwil ar ddiogelwch data a seibr ar gyfer TEC ar gael yma. Mae gwybodaeth ar gyfer rhanddeiliaid ar symud systemau larwm cymdeithasol digidol ar gael yma.

Mae **TSA** hefyd yn cydweithio gyda Housing LIN ar brosiect TAPPI ('Technology for our Ageing Population: Panel for Innovation') i ddatblygu meincnod ar gyfer dylunio technoleg

o fewn stoc tai newydd. Caiff TAPPI ei gynhyrchu ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth, ei brofi a'i werthuso mewn pedair ardal a gwahanol fathau o dai yn y Deyrnas Unedig gyda'r canlyniadau i ddod yn 2024. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

Mae **Appello** a **Housing LIN** wedi cyhoeddi papur gwybodaeth, 'Digital Telecare: How Ready are we for the Digital Switch' ar barhad teleofal dros wasanaeth digidol. Mae'r canfyddiadau yn cynnwys:

- Amcangyfrif ir y gallai 18,750 datblygiad tai arbenigol ar gyfer cymunedau hŷn/bregus fod yn dal heb wasanaethau digidol ar gyfer teleofal a galw warden digidol erbyn 2025;
- Amcangyfrifir y bydd 25% (6,250) o ddatblygiadau tai yn defnyddio gwasanaethau digidol erbyn 2025;
- Y risg cyntaf yw y bydd gan 18,000 datblygiad offer diogelwch byw nad yw'n addas i'r diben erbyn 2025.

Y prif gonsyrn yw y bydd nifer fawr o ddarparwyr tai yn edrych ar uwchraddio eu gwasanaeth teleofal ar unwaith mewn cyfnod byr, gan greu problemau yn y gadwyn gyflenwi a galluedd diwydiant. Neges allweddol y papur yw y bydd darparwyr tai mewn sefyllfa gryfach os ydynt yn gweithredu'n gyflym wrth sicrhau datrysiad teleofal digidol, gan y bydd hyn yn rhoi mwy o amser i weithio o amgylch unrhyw heriau cyn amserlen 2025.

Mae gan **Housing LIN** hefyd amrywiaeth o ddogfennau a chanllawiau ar dai a gofal a alluogir gan dechnoleg ar gael ar eu gwefan.

Cafodd 'The Digital Reality', papur gwyn **Everon** ar y trosglwyddo i ddigidol ei gyhoeddi yn Ionawr 2023. Mae'r papur yn nodi nad oedd BT wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i faint y gallai'r trosglwyddo darfu ar rai cwsmeriaid, felly cafodd y trosglwyddo ei oedi ar gyfer y rhai nad ydynt eisiau gwneud y newid ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi cyfle i BT drefnu gwell opsiynau wrth gefn ar gyfer y cwsmeriaid sydd ei angen. Fodd bynnag, ni ddylid gweld hyn fel cyfle i randdeiliaid oedi unrhyw gynllunio a gweithredu mudo. Mae'r papur hefyd yn rhoi enghreifftiau o opsiynau gofal digidol tebyg i synwyryddion deallus o amgylch y cartref a all helpu i adeiladu darlun o weithgaredd dydd-i-ddydd defnyddwyr, gan alluogi darparwyr i gymryd mesurau rhagweithiol pan fydd newidiadau mewn ymddygiad.

Cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** strategaeth ddigidol yn 2021, sy'n anelu defnyddio technoleg ddigidol, data a thechnoleg i wella bywydau pobl Cymru. Caiff ei llywio gan gyfres o safonau gwasanaeth digidol ar gyfer Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad 'Cysylltedd Digidol – Band Eang' ym mis Awst 2002. Mae'r canfyddiadau yn cynnwys:

- Ni ddylai'r polisi telathrebu a'i gyllid fod yn fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan nad yw'n gynaliadwy i Lywodraeth Cymru ailgyfeirio cyllid i lenwi'r bylchau a gaiff eu creu gan Lywodraeth y DU
- Gallai fod problemau sylweddol ar gyfer aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas, yn arbennig y rhai'n byw mewn ardal anghysbell neu wledig gyda mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd
- Mae'n ddoeth oedi'r mudo nes y caiff y materion hyn eu datrys
- Croesewir yr awgrym o wneud cysylltedd ffibr llawn yn ofyniad ym mhob datblygiad tai newydd.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb ym mis Medi 2022 a derbyn yr holl argymhellion.

## Cefnogaeth CHC i aelodau

Cynhaliodd CHC sesiwn Sbotolau gyda **TEC Cymru** ar y cyfleoedd i gymdeithasau tai wella a symleiddio eu gwasanaethau teleofal cyn 2025. Mae'r sesiwn Sbotolau yn dal ar gael i'w weld ar-lein. Mae'n nodi materion i gymdeithasau tai eu hystyried, sy'n cynnwys buddsoddi mewn datrysiadau digidol, cynllunio gyda defnyddwyr gwasanaeth, monitro ariannol gydag awdurdodau lleol ac ystyried dull gweithredu cyson fydd yn manteisio i'r eithaf ar y buddion posibl unwaith y byddant wedi eu cwblhau. Mae'r sgwrs hefyd yn ymchwilio'r cyfleoedd i ddarparwyr tai ddefnyddio technoleg yn cynnwys synwyryddion sy'n monitro symudiadau.

**Rydym wrthi'n ymchwilio mwy o sesiynau Sbotolau i gysylltu ein haelodau gydag arbenigwyr ar y materion hyn.**

**Ceisiwn sgwrs gyda Llywodraeth Cymru er mwyn deall yn well yr adolygiad a gomisiynwyd yn ddiweddar ar baratoadau ar gyfer y trosglwyddo i ddigidol, a sut y gall cymdeithasau tai gymryd rhan.**

**I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â**

Emily Jones, Cynorthwyydd Polisi a Materion Allanol: Emily-Jones@chcymru.org.uk